

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru

DRAFFT Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher, 16 Mai 2018 yn swyddfa Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, yr Harbwr, Aberystwyth a ddechreuodd am 10.15am

Yn bresennol:

Aelodau	Yn cynrychioli
Nick O'Sullivan (NOS)	Cadeirydd
Jim Evans	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
John O'Connor	Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
Brett Garner	Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Trevor Jones	Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai
Emily Williams	Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB
Rowland Sharp	Cyfoeth Naturiol Cymru
Holly Whiteley	Pwyllgor Cyngori ar Bysgod Môr Cymru
Dean Parry	Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion
Siôn Williams	Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
Julian Bray	Llywodraeth Cymru
Leanne Llewellyn	“ “
Stuart Evans	“ “
Jenni Hartley	“ “
Margaret Rees	“ “
Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:	
Mark Stafford	Llywodraeth Cymru
Bethan Jones	Llywodraeth Cymru
Len Walters	Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru
Kevin Denman	Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
Colin Charman	Cyfoeth Naturiol Cymru
Drwy Wahoddiad:	
Sue Burton a Steve DeWaine	ACA Sir Benfro / Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru (yn bresennol o 12.30)
Adam Greenwood/Chris Hill	Miller Research (yn bresennol o 12.30)

<p>1.</p>	<p>Croeso ac ymddiheuriadau – Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Jenni Hartley a oedd yn bresennol am y tro cyntaf. Roedd yr ymddiheuriadau fel y'u rhestrir.</p> <p>Diolchodd JB i'r aelodau am fod yn bresennol ac am eu cefnogaeth barhaus. Amlinellodd y llwyth gwaith sylweddol y mae staff wedi bod yn ymdrin ag ef ers y cyfarfod diwethaf. Mae 'Brexit' wedi bod yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar Is-adran y Môr a Physgodfeydd a'r gwasanaethau cymorth mewnol rydym yn dibynnu arnynt. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r aelodau am nifer o newidiadau strwythurol yn Is-adran y Môr a Physgodfeydd; caiff siart sefydliadol ei dosbarthu i'r aelodau pan fydd ar gael.</p> <p>Dywedodd JB wrth yr aelodau bod llawer o ohebiaeth a cheisiadau dyddiadur wedi cael eu hanfon at Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch materion yn ymwneud â'r Môr a Physgodfeydd ers y cyfarfod diwethaf. Nododd fod ymateb i ohebiaeth a pharatoi ar gyfer y cyfarfodydd hynny yn golygu bod llai o amser gan y staff i fwrw ymlaen â ffrydiau gwaith allweddol.</p> <p>Cam Gweithredu 1: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu siart sefydliadol sy'n dangos y strwythurau newydd.</p>
<p>2.</p>	<p>Cylch Gorchwyl – Roedd Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi cael ei lunio a oedd yn cyfuno'r Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog blaenorol. Roedd y newidiadau'n egluro'r ymddygiad a ddisgwyllir gan aelodau mewn cyfarfodydd a'r camau dilynol a fyddai'n cael eu cymryd petai angen.</p> <p>Ar y cyfan, cytunodd yr aelodau ar y Cylch Gorchwyl newydd ond awgrymodd nifer ohonynt y dylai cynrychiolydd o'r diwydiant cregyn bylchog ymuno â'r grŵp i gynnig arbenigedd yn y maes hwnnw. Hefyd, cyflwynwyd cais am gynrychiolydd ychwanegol o Gyswllt Amgylchedd Cymru.</p> <p>Roedd rhai aelodau o'r farn bod dymameg bresennol y grŵp yn dda ac na ddylai'r grŵp fynd yn rhy fawr ac anhydrin. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid gwahodd cynrychiolwyr arbenigol o ymuno â grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer meysydd gwaith penodol lle bo angen.</p> <p>Awgrymodd TJ y gellid gwahodd arbenigwyr i gyfarfodydd Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru o dan bwynt 3.4 o'r Cylch Gorchwyl. Wrth i'r trafodaethau barhau, cytunwyd y dylid gwahodd cymdeithasau i enwebu cynrychiolydd ychwanegol, h.y. byddai gan bob cymdeithas / grŵp un prif gynrychiolydd a dau ddirprwy a enwir a fyddai'n gallu cynnig arbenigedd ychwanegol mewn meysydd diddordeb penodol ar ran y gymdeithas. Felly, yn y dyfodol, gallai pob sefydliad</p>

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (1/10/2018) – Eitem 2

	<p>edrych ar yr eitemau ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod a phenderfynu pa un o'i dri chynrychiolydd enwebedig a fyddai yn y sefyllfa orau i fod yn bresennol a rhoi ei farn.</p> <p>Cam Gweithredu 2:</p> <p>2.1 Caiff y Cylch Gorchwyl ei ddiwygio i adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed i gynnwys dirprwy enwebedig ychwanegol a'i ddsbarthu i'r aelodau.</p> <p>2.2 Yr aelodau i gadarnhau eu bod yn derbyn y Cylch Gorchwyl diwygiedig drwy anfon e-bost at yr Ysgrifenyddiaeth a dod â chopi wedi'i lofnodi o'r nodyn derbyn (p7 yn y Cylch Gorchwyl) i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>2.3 Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i'r aelodau arweiniol am fanylion un dirprwy ychwanegol ar gyfer eu sefydliad.</p> <p>2.4 Yr aelodau i gytuno â'u sefydliadau pwy fydd eu dirprwy ychwanegol a hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth o'r enwebiad a darparu manylion cyswllt.</p>
3.	<p>Cymeradwyo nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018 – Cymeradwywyd nodiadau'r cyfarfod fel cofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.</p>
3(a).	<p>Camau gweithredu – Amlinellwyd statws y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.</p> <p><i>Cam Gweithredu 6 – Bydd darparu cynllun cyflawni yn aros ar y rhestr nes clywir yn wahanol.</i></p> <p><i>Cam Gweithredu 8/9/10 – Taflen wybodaeth ar gyfer Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – cyflwynodd HW fersiwn a ddefnyddir yn Lloegr a gofynnodd i'r aelodau am eu sylwadau. Gan fod dryswch ynglŷn â'r broses o wneud cais, esboniodd JE y byddai'n bresennol mewn cyfarfod â'r Uned Rheoli Cynlluniau cyn bo hir ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.</i></p> <p><i>Cam Gweithredu 10 – Gorddrysau dianc – Ar sail yr ymateb i gam gweithredu 10 (mewn cyfarfod ar 7 Mawrth), mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru wedi cynnig llunio achos o blaid cais Cymru gyfan o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Os yw'r aelodau o blaid cais i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a fyddai pob Cymdeithas Pysgotwyr cystal â chyflwyno eu hymatebion manwl i'r Ysgrifenyddiaeth?</i></p> <p>Cam Gweithredu 3: Yr aelodau i roi manylion cyswllt i Gymdeithas Pysgotwyr Cymru ar gyfer unrhyw un yn eu cymdeithas a fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynllun Cymru gyfan i geisio cael cyllid ar gyfer prynu gorddrysau dianc.</p> <p><i>Cam Gweithredu 13 – Yr aelodau i ddarparu manylion mentrau marchnata a hyrwyddo – nid oedd unrhyw beth wedi cael ei ddarparu.</i></p> <p><i>Cam Gweithredu 15 – HW i wahodd Caroline Dawson i'r cyfarfod nesaf i drafod prosiect i farchnata a hyrwyddo bwyd môr Cymru.</i></p>
4.	<p>Brexit – Rhoddodd SE y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r aelodau am y</p>

	<p>trafodaethau rhwng Defra a gweinyddiaethau datganoledig eraill.</p> <p>Mae cytundeb pontio wedi cael ei wneud rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd ond nid oedd y gweinyddiaethau datganoledig yn rhan o'r trafodaethau. Ar hyn o bryd, byddai holl gyfraith Ewrop (y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin) yn parhau i fod yn gymwys yn y DU yn ystod y cyfnod pontio a than 31 Rhagfyr 2020 o leiaf ond, ar hyn o bryd, roedd rôl y DU yn ystod Cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 yn aneglur.</p> <p>Wrth symud ymlaen, mae llawer i'w ystyried, yn enwedig yr angen i ystyried pa elfennau o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a fyddai'n dal i fod yn gymwys ar ôl Brexit. Byddai angen mewnbwn o'r diwydiant ar gyfer hyn.</p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r aelodau y bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu ar gyfer Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ac y bydd yn cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol er mwyn datblygu polisi pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol ar ôl Brexit. Oherwydd manylder y gwaith sydd ei angen, a'r ffaith bod angen ei wneud ar frys, byddai angen i aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen ymrwymo i ddelio â gohebiaeth a negeseuon e-bost ac ati yn rheolaidd, yn gystal â mynychu cyfarfodydd.</p> <p>Yn ystod y trafodaethau, teimlai'r aelodau y dylid diffinio diben y grŵp a sut y byddai penderfyniadau'n cael eu cyfleu i Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd yr aelodau hefyd yn pryderu am yr ansicrwydd parhaus sydd ynghlwm wrth y grŵp ac, fel y cyfryw, roeddent o'r farn y dylai cynlluniau wrth gefn gael eu rhoi ar waith a fyddai'n ystyried pob senario.</p> <p>Bydd SE yn llunio cynllun ac yn cysylltu ag aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru yn gofyn iddynt gytuno i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, a hefyd yn gofyn am fanylion ynglŷn â phwy a ddylai fod yn rhan o'r grŵp, yn arbennig y rhai sydd yn y sefyllfa orau i ymrwymo i ddiben yr is-grŵp fel y nodir uchod.</p> <p>Cam Gweithredu 4:</p> <p>4.1 Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag aelodau o bysgodfeydd sy'n absennol er mwyn rhoi gwybod i'w sefydliadau am y penderfyniad i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen.</p> <p>4.2 Cynigiodd JE gydweithio ag SE ar ran aelodau o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru a Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru er mwyn dechrau'r gwaith o fwrw ymlaen â'r is-grŵp.</p> <p>4.3 SE i drefnu cyfarfod a rhoi gwybod i'r grŵp.</p>
5.	<p>Adroddiad ar Weithrediadau – Cyflwynwyd adroddiad llawn er gwybodaeth. Hefyd, rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r aelodau am nifer o bysgodfeydd allweddol a oedd yn cynnwys cregyn bylchog, cregyn moch, corgimychiaid a choccos.</p> <p>Ymhlith y meysydd eraill a drafodwyd roedd yr arolygiadau diweddar o bŵer motorau cychod pysgota o dan 10m a gynhaliwyd gan swyddogion o Marine</p>

	<p>Scotland, ymchwiliadau ac erlyniadau sy'n mynd rhagddynt ac awdurdodiad draenogiaid y môr ar gyfer 2018. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y llong RIB sydd â chaban newydd o'r enw 'Catrin' bellach yn Aberystwyth ac y byddai'n gwbl weithredol cyn bo hir.</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai Tystysgrifau Allforio (a elwir hefyd yn dystysgrifau dal pysgod) yn ofynnol ar ôl Brexit, er mwyn galluogi pysgotwyr i allforio'r pysgod a ddelir ganddynt i Ewrop. Gan fod hwn yn faes gwaith arbennig o bwysig, caiff ei drafod yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Roedd gwaith rheoli a gorfodi Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn mynd rhagddo'n dda gyda'r Sefydliad Rheoli Morol a gweinyddiaethau datganoledig eraill, ac mae'n cynnwys system adrodd ar gychod o dan 10m sy'n debygol o fod yn ofynnol i ategu Tystysgrifau Allforio, a system monitro cychod ar gyfer y fflyd o dan 12m. Cynhelir ymgynghoriad, a hynny yn yr hydref o bosibl.</p> <p>Cam Gweithredu 5: JB i ofyn i James Watkins a Tim Croucher fynd i gyfarfod nesaf Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd o ran Tystysgrifau Allforio, adroddiadau ar gychod o dan 10m a system monitro cychod o dan 12m.</p>
6.	<p>Crynodeb o'r cynnydd mewn perthynas â ffrydiau gwaith allweddol – Cafodd yr aelodau y diweddariad a gyflwynwyd er gwybodaeth. Esboniodd JB na fyddai'n gallu cyflwyno cynlluniau cyflawni manwl ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith allweddol nes bod lefel yr adnoddau cymorth mewnol a fydd ar gael i fynd rhagddo â'r gwaith wedi'i chadarnhau.</p> <p>Cregyn moch – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cregyn moch bellach wedi symud i frig y rhestr flaenoriaethau oherwydd y pwysau oedd ar y stoc. Roedd swyddogion bellach yn ystyried dull gweithredu gwahanol i gyflwyno deddfwriaeth newydd mewn dau gam, a'r gobraith oedd y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud cyn bo hir.</p> <p>Byddai cam 1 nawr yn cynnwys cyflwyno trwydded i Gymru gyfan, gydag amodau amrywiol yn cael eu cynnwys yn yr offeryn statudol. Ymhlith y rhain roedd cynnydd yn y maint cyfeirio cadwraethol lleiaf, cap ar laniadau a chyfyngiad posibl ar laniadau yn ystod y cyfnod sensitif biolegol.</p> <p>Cyfeiriodd LL at lythyr a anfonwyd i'r diwydiant y llynedd yn gofyn am fanylion Fflyd Cyfeirio. Cafwyd mewnbwn o'r Gogledd a'r De, ac roedd nawr yn ceisio gwybodaeth o'r Canolbarth. Gofynnwyd i'r aelodau drafod â'u cymdeithasau a rhoi gwybod i LL os oedd unrhyw bysgotwyr yn fodlon cymryd rhan.</p> <p>Cam gweithredu 6: Yr aelodau i nodi pysgotwyr cregyn moch yn eu cymdeithasau a fyddai'n fodlon bod yn rhan o fflyd cyfeirio ac anfon y wybodaeth ymlaen i'r Ysgrifenyddiaeth.</p> <p>Pysgota cregyn bylchog mewn rhan ychwanegol o ACA Bae Ceredigion – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod prinder adnoddau cymorth mewnol wedi rhwystro'r ffrwd waith hon rhag symud ymlaen. Os gellir sicrhau adnoddau,</p>

rhoddir diweddariad mwy sylweddol yn y cyfarfod nesaf.

Cynllun Rheoli Cocos – Mae cymorthfeydd wedi cael eu cynnal a roddodd wybodaeth ddefnyddiol iawn. Bydd angen rhagor o gyngor cyfreithiol ar y swyddogion wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Yn dilyn y cyfarfod blaenorol, roedd JE wedi cynnal arolwg anffurfiol o'r diwydiant er mwyn canfod faint o ddiddordeb sydd mewn gwneud cais am gyllid o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ar gyfer prynu motorau newydd. Hyd yma, roedd chwe ymateb wedi dod i law, a byddai JE nawr yn mynd ati i drafod y mater ymhellach ag aelodau'r Uned Rheoli Cynlluniau. Gofynnwyd i'r aelodau roi manylion i JE am bobl a fyddai â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid o'r fath yn ystod y 2-3 wythnos nesaf.

Cam Gweithredu 7: Yr aelodau i roi manylion i JE (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru) am bobl a fyddai â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i brynu motorau newydd ar sail Cymru gyfan.

Cosbau Gweinyddol Penodedig – Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar hyn a'r bwriad yw cyhoeddi dogfen ymgynghori yn gynnar ym mis Gorffennaf.

Asesu Pysgodfeydd Cymru – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod aelod newydd o staff wedi ymuno â'r tîm bellach a bod y gwaith yn mynd rhagddo. Rhoddir diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Cregyn y Frenhines – Roedd swyddogion bellach yn ystyried cynnwys mesurau newydd o dan amod trwydded.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Mae gwaith wedi mynd rhagddo i gasglu a dadansoddi'r ymatebion o'r ymgynghoriad diweddar.

Cam Gweithredu 8: JB i geisio gwybodaeth am yr adborth a gafwyd ar yr adran ar ddyframaethu yn yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Morol.

Polisi Pysgodfeydd Cyffredin – Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y bydd cyngor gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr ar gael ym mis Mehefin, ac y bydd cyfarfod rhanddeiliaid yn cael ei gynnal o bosibl er mwyn amlinellu'r dull gweithredu yng Nghymru mewn perthynas â chyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr. Cododd JE bryderon ynghylch rhoi'r rhwymedigaeth lanio ar waith yn llawn ym mis Ionawr 2019 a'r risg sylweddol o gyfyngu ar gwtâu rhywogaethau a gyflwynir o ganlyniad i stoc na cheir digon o ddata arni a chynnwys draenogiaid y môr yn dechnegol yn y rhwymedigaeth lanio.

Draenogiaid y Môr – Rhoddodd LL y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r aelodau gan esbonio y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r aelodau am bwysigrwydd darparu gwybodaeth am ddalfeydd cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr i ategu'r trafodaethau.

Dywedodd JE wrth y grŵp am gynllun peilot tagio draenogiaid y môr sy'n mynd rhagddo a bydd yn cyflwyno adroddiad arno cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

	<p>Pysgodfeydd datblygol</p> <p>Gwrachod y Môr - Yn dilyn pryderon a godwyd o'r blaen, cadarnhaodd JB na chafodd unrhyw wrachod y môr byw eu prynu o Gymru yn 2017. Cynhelir cyfarfod cyn bo hir gyda Marine Harvest i drafod ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd datganiad i'r wasg a wnaed yn ddiweddar gan Marine Harvest yn cadarnhau bod y cwmni bellach wedi bridio gwrachod y môr yn llwyddiannus mewn caethiwed i'w defnyddio mewn ffermydd eog.</p> <p>Pysgodfa Cyllyll Môr – Cyflwynwyd adroddiad ar y gwaith sydd wedi'i wneud er gwybodaeth. Esboniodd JH yr adroddiad, a oedd yn ystyried ffyrdd y dylai asesiadau stoc gael eu cynnal ac yn tynnu sylw at y ffaith y byddai asesiadau stoc yn heriol. Byddai swyddogion nawr yn ystyried y camau nesaf mewn perthynas â'r bysgodfa.</p> <p>Cyfeiriodd EW at astudiaeth debyg a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor ar ran Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Gogledd-orllewin Lloegr a gofynnodd a ellid ei hanfon ymlaen.</p> <p>Cam Gweithredu 9: JH i anfon adroddiad Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau Gogledd-orllewin Lloegr ar gyllyll môr at EW.</p> <p>Meysydd Datblygu Posibl</p> <p>Cimychiaid Wyog – yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol, rhoddwyd papur i'r aelodau yn amlinellu deddfwriaeth a allai fod mewn grym yn y dyfodol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn unol â Rheoliad Cadwraeth Dechnegol ddiwedd 2018 yn gwahardd dal cimychiaid wyog. Cyflwynwyd y papur hwn ar ddiwrnod y cyfarfod a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ei anfon ymlaen at yr aelodau ac aelodau Grŵp Pysgodfeydd y Glannau.</p> <p>Cam Gweithredu 10: Yr Ysgrifenyddiaeth yn anfon y papur sy'n amlinellu'r ddeddfwriaeth a allai fod mewn grym yn y dyfodol mewn perthynas â chimychiaid wyog ymlaen at holl aelodau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru a Grŵp Pysgodfeydd y Glannau.</p>
7.	<p>Y diweddaraf am Reoli Cynaliadwy ac Adnoddau Naturiol – Dywedodd SE wrth yr aelodau fod yr ymgynghoriad a oedd yn cynnwys tair eitem a oedd yn ymwneud yn benodol â physgodfeydd bellach wedi dod i ben. Roedd ymatebion yn cael eu cydlynu gan dîm canolog a byddai dogfen frifio yn cael ei hanfon at Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn iddo ystyried y camau nesaf.</p>
8.	<p>Eitemau er gwybodaeth:</p> <p>(i) Dadansoddiad o ymweliadau â gwefan y Môr a Physgodfeydd – teimlid fod y wybodaeth yn aneglur. Rhoddodd JB wybod i'r aelodau y byddai adroddiad haws ei ddarllen yn cael ei ddarparu.</p> <p>(ii) Cyllyll Môr – y Wybodaeth Ddiweddaraf ac Adroddiad – rhoddodd JH</p>

	<p>wybod i'r aelodau am ganfyddiadau'r adroddiad, a thrafodwyd hyn o dan eitem 6.</p> <p>(iii) Canlyniadau Arolwg – cychod o dan 10m yng Nghymru – Cyflwynwyd y ddogfen er gwybodaeth. Esboniodd JB fod pryder ynghylch nifer y perchennogion cychod nad oeddent yn gysylltiedig ag unrhyw gymdeithas bysgota neu a oedd wedi methu ag ateb y cwestiwn hwn, gan ei bod yn bwysig sicrhau bod y bobl hyn yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn y diwydiant pysgota yng Nghymru. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y gall swyddogion gynnal arolwg pellach er mwyn casglu'r wybodaeth hon.</p> <p>Hefyd, gofynnwyd i'r aelodau roi manylion am sut y gellid ymgysylltu'n well â physgotwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chymdeithas yn eu barn nhw.</p> <p>(iv) Newidiadau i'r Ddeddf Diogelu Data – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y newidiadau sydd ar fin digwydd a sut y byddai hyn yn effeithio ar wybodaeth a ddelir. Byddai Datganiad Preifatrwydd yn cael ei roi i bob aelod.</p> <p>Cam Gweithredu 11: JB i gyflwyno adroddiad haws ei ddarllen ar ymweliadau â'r wefan.</p> <p>Cam Gweithredu 12: Yr aelodau i gynnig awgrymiadau i'r Ysgrifenyddiaeth ynghylch sut y gellid ymgysylltu'n well â physgotwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chymdeithas yn eu barn nhw.</p> <p>Cam Gweithredu 13: Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon datganiad preifatrwydd GDPR at bob aelod.</p>
9.	<p>Unrhyw fater arall</p> <ol style="list-style-type: none">1. Cyflwynodd EW gopi o adroddiad y Sefydliad Economeg Newydd – A Fair & Sustainable Fisheries Bill (er gwybodaeth).2. Dyddiad y cyfarfod nesaf – rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei newid – bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhoi gwybod i bawb cyn gynted â bod ystafell gyfarfod addas wedi cael ei threfnu.
10.	<p>Cyflwyniadau</p> <p>(a) Roedd Sue Burton (ACA Sir Benfro) a Steve DeWaine (Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru) yn bresennol i gyflwyno Menter Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro yn dilyn treial ar ddefnyddio gorddrysau dianc a bachau bioddiraddadwy ar gewyll.</p> <p>Yn ystod y trafodaethau, gwnaeth yr aelodau sylwadau cadarnhaol o blaid defnyddio bylchau dianc a bachau bioddiraddadwy. Cafodd gwybodaeth ddefnyddiol ei rhannu gan y rhai sydd eisoes yn defnyddio'r bylchau, yn enwedig o ran y lle gorau i osod y rhain fel bod modd cadw crancod llygatgoch yn y cewyll.</p> <p>Esboniodd aelodau o'r Gogledd eu bod eisoes yn defnyddio'r eitemau hyn ar eu cewyll. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp gytuno ar destun i hyrwyddo'r arfer gorau ymhlith pysgotwyr cewyll yng Nghymru.</p>

Cam Gweithredu 14: SW i gyflwyno canllawiau drafft ar bysgota â chewyll yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru er mwyn i'r aelodau eu cadarnhau cyn eu hyrwyddo ymhlith holl bysgotwyr cewyll Cymru.

(b) Roedd Chris Hill ac Adam Greenwood o Miller Research yn bresennol i roi gwybod i'r aelodau am eu gwaith i lunio cynllun gweithredu er mwyn ystyried yr effaith y byddai Brexit yn ei chael ar y sector allforio bwyd yng Nghymru. Byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei hanfon at bob aelod drwy e-bost.

Cam Gweithredu 15: Adam Greenwood i ddsbarthu'r cyflwyniad ar Barodrwydd Sector Bwyd Môr Cymru am Brexit er gwybodaeth drwy'r Ysgrifenyddiaeth.